# Cerdyn Darganfod Pobl y Pasg



Pontius Peilat


# Cerdyn Darganfod Pobl y Pasg

## Pontius Peilat



**Gwybodaeth Gefndirol**

- Talaith Rufeinig oedd Jwdea– rhan o'r Ymerodraeth Rufeinig.
- Pontius Peilat oedd llywodraethwr Jwdea yng nghyfnod yr Ymerawdwr Tiberiws.
- Roedd Peilat yn llywodraethu rhwng 26 a 36 OC. Cafodd achos llys Iesu ei gynnal rhwng 30 a 33 OC.



**Beth Ddigwyddodd**

- Caiaffas, yr archoffeiriad, anfonodd Iesu at Peilat am nad oedd ganddo'r awdurdod i ddedfrydu Iesu i farwolaeth.
- Pan ddeallodd Peilat fod Iesu yn dod o Galilea, penderfynodd mai Herod ddylai farnu'r achos gan mai Herod oedd yn teyrnasu yn Galilea.
- Pan oedd Herod yn methu dod o hyd i dystiolaeth yn erbyn Iesu, anfonodd e yn ôl at Peilat. Roedd Peilat yn ofni y byddai Caiaffas a'r Iddewon yn achosi terfysg, felly yn y diwedd cytunodd i ddedfrydu Iesu i farwolaeth drwy ei groeshoelio.
- Roedd Peilat yn teimlo'n anesmwyth iawn yn cytuno â Caiaffas, felly golchodd ei ddwylo yn gyhoeddus fel arwydd nad oedd yn derbyn y cyfrifoldeb am farwolaeth Iesu.




**Diffiniad**

- Croeshoeliad: Dull o ddienyddio pobl oedd eu croeshoelio. Byddai dwylo'r troseddwr (ei arddyrnau) yn cael eu hoelio neu eu rhwymo i groes fawr o bren, yna roedd yn cael ei adael yn hongian nes iddo farw.




**Beth Allwn ei Ddysgu**

- Dydy gwneud penderfyniad ddim bob amser yn hawdd. Roedd gan Peilat ddewis caled i'w wneud. Pan ydych chi'n wynebu dewis anodd, gall gofyn am gyngor rhywun rydych yn ymddiried ynddynt, ac sydd efallai yn hŷn na chi a gyda mwy o brofiad, fod yn help mawr.



**Ystyried**

- Beth wyt ti'n meddwl oedd Peilat yn ei feddwl a'i deimlo:
  - Pan ddaethpwyd â Iesu ato am y tro cyntaf;
  - Pan benderfynodd yn y diwedd fod rhaid i Iesu farw – er ei fod yn credu fod Iesu'n ddieuog?
- Disgrifia amser pan wyt ti wedi gorfod gwneud penderfyniad anodd iawn. Wnaeth unrhyw un neu unrhyw beth dy helpu i wneud y penderfyniad yn haws? Esbonia pam rwyt ti'n meddwl dy fod wedi gwneud y penderfyniad cywir neu beidio.